

---

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 16.04.2019

---

**Yn bresennol:** Y Cyngorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr John Brynmor Hughes ac Angela Russell

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Dim i'w nodi

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

### 4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD** cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwysu'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

### 5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A

a) Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a cholffarnau perthnasol.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau a'i amgylchiadau personol. Amlygodd bod yr holl ddigwyddiadau yn rhan o'i orffennol ac erbyn hyn gyda pherthynas dda gyda'i gyn bartner a'i fod yn gweithio yn galed i gefnogi ei blant.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**b) PENDERFYNWYD nad oedd yr ymgeisydd, ar hyn o bryd, yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

c) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar, a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawriad
- geirda a dderbyniodd gan ei ddarpar gyflogwr
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS

Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn yn Awst 2012 gan Lys Ynadon Gwynedd am drosedd o ddinistrio eiddo yn groes i Ddeddf Difrod Troseddol 1971. Cafodd orchymyn i dalu iawndal o £300 a chostau o £85. Yn Rhagfyr 2012 cafodd ei ddyfarnu yn euog gan Lys Ynadon Gwynedd ar ddau gyhuddiad o guro. Derbyniodd orchymyn atal, gorchymyn cymunedol am 18 mis a chostau o £200. Yn mis Hydref 2013 cafodd ei ddyfarnu yn euog am beidio â chydymffurfio gyda gofynion y gorchymyn cymunedol yn groes i ofynion Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Derbyniodd ddirwy o £50 a gorchymyn i dalu £50 o gostau.

ch) Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidwydd i berson sydd â cholffarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwy 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais ac fe nodir ym mharagraff 6.5 o'r Polisi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Mae'r paragraff yn rhestru troseddau o ddifrod troseddol a throseddau o ymosodiadau cyffredin. Mae paragraff 6.6 yn nodi y bydd cais yn cael ei wrthod os oes mwy nag un gollfarn am drosedd o natur dreisgar yn erbyn yr ymgeisydd o fewn y 10 mlynedd diwethaf.

Mae paragraff 16.1 o bolisi'r Cyngor yn ymwneud ag ail-droseddu. Rhaid yn gyntaf sicrhau bod y collfarnau'n bodloni canllawiau'r polisi yn unigol, ond gyda'i gilydd yn creu hanes o ail-droseddu sydd yn dangos diffyg parch at les eraill ac eiddo. O dan y Polisi rhaid bod 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn fwyaf diweddar.

d) Rhoddodd yr Is bwyllgor ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Daeth yr Is bwyllgor i benderfyniad bod troseddau 2012 yn droseddau o drais. Gan fod y troseddau hyn wedi digwydd llai na 10 mlynedd yn ôl rhagdybiwyd yr angen i wrthod y cais o dan baragraffau 6.6 a 16.1 o'r Polisi. Nid yw darpariaethau'r Polisi yn orfodol a gellid gwro oddi arnynt os gellid cyfiawnhau ffeithiau'r achos. Er mwyn ystyried y posibilrwydd o wyro rhoddodd yr Is-bwyllgor sylw arbennig i bwyntiau bwled paragraff 5.1 o'r polisi sydd yn cynnwys difrifoldeb, perthnasedd, dyddiad y comisiwn, dyddiad euogfarn, oedran yr ymgeisydd yn amser euogfarn, y ddedfryd a roddwyd, os oes patrwm o droseddu, yn ogystal ag unrhyw ffactorau perthnasol eraill.

Ystyriwyd bod troseddau 2012 wedi deillio o ddigwyddiadau domestig gyda chyn partner yr ymgeisydd. Amlygwyd bod y collfarnau oddeutu 6 – 7 oed a'r Polisi'n nodi'n glir y dylai 10 mlynedd fod wedi mynd heibio. Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn y byddai gadael y Polisi yn gynamserol ac o ganlyniad nid oeddynt yn fodlon bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol, ar hyn o bryd, i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

## **6. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr B**

a) Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a cholffarnau perthnasol ac adroddiad Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau a'i amgylchiadau personol. Rhoddodd eglurhad llawn am y pwyntiau cosb a gafodd ar ei drwydded. Amlygodd ei gyflogwr bod collfarnau 1991 a 1998 wedi cael ystyriaethau llawn mewn is-bwyllgor blaenorol lle caniatwyd cais yr ymgeisydd am drwydded. Ateggodd bod yr ymgeisydd yn yrrwr da ac roedd yn canmol ei waith.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'i gyflogwr o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**b) PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

c) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar, a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawriad
- sylwadau llafar a gyflwynodd ei gyflogwr yn ystod y gwrandawriad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS ac adroddiad trwydded gyrru'r ymgeisydd a ddarparwyd gan Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA).

Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn yn Ebrill 1991 gan Lys y Goron Caernarfon ar gyhuddiad o achosi niwed corfforol yn groes i adran 47 o Ddeddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861. Cafodd orchymyn cymunedol o 100 awr a gorchymyn i dalu £100 o iawndal a £124 o gostau. Yn mis Hydref 1998 derbyniodd gollfarn gan Lys Ynadon Bangor am ddwyn gan ei

gyflogai yn groes i adran 1 o'r Ddeddf Dwyn 1968. Cafodd ddirwy o £350 a gorchymyn i dalu £30 o gostau. Yn Mehefin 2015 gwnaed honiad gan Gyngor Gwynedd ei fod wedi gweithredu fel gyrrwr hacni heb fod a thrwydded gyfredol (trosedd yn groes i adran 47 o Ddeddf Cymalau Heddlu'r Dref 1847). Honnwyd hefyd nad oedd ganddo esgus rhesymol dros beidio â dangos ei drwydded gyrrwr cerbyd hacni ar gais swyddog awdurdodedig o'r Cyngor (trosedd yn groes i adran 53 i'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976). Yn dilyn ymholiadau pellach gan yr Uned Trwyddedu nid oedd gan yr ymgeisydd drwydded gyrru mewn grym. O ganlyniad, cyflwynodd y Cyngor erlyniad yn ei erbyn yn Llys Ynadon Caernarfon. Fodd bynnag, yn dilyn pryderon gan yr amddiffyniad o ran derbynioldeb tystiolaeth yr erlyniad, cytunodd y Cyngor i dynnu'r erlyniad yn ôl heb i'r mater fynd i dreial.

Yn mis Gorffennaf 2016 derbyniodd yr ymgeisydd 6 pwynt cosb am drosedd MS90 (methu darparu gwybodaeth am hunaniaeth gyrrwr) – amlygwyd bod y pwyntiau hyn yn dod i ben Gorffennaf 2019.

Nodwyd yn adroddiad y Swyddog Trwyddedu bod swyddogion yr Uned Trwyddedu wedi amau bod yr ymgeisydd wedi parhau i yrru cerbyd tacsï ar ôl y dyddiad y daeth ei drwydded i ben (6.3.19) Er hynny, ni chyflwynwyd manylion am y digwyddiad (amser, lleoliad a disgrifiad o'r hyn a welwyd).

- ch) Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â cholffarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.3 o'r Polisi yn nodi bod "materion eraill i'w hystyried" yn cynnwys ymhlith eraill hysbysiadau cosb benodedig, torri amodau trwyddedu, a chyhuddiadau.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwy'r 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais ac fe nodir ym mharagraff 6.5 o'r Polisi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Mae'r paragraff yn rhestru troseddau sydd yn cynnwys, ymhlith eraill, ymosodiad sy'n achosi gwir niwed corfforol.

Mae paragraff 8 o'r Polisi yn cyfarch troseddau anonestrwydd a pharagraff 8.2 yn nodi byddai cais yn cael ei wrthod fel rheol os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am drosedd sydd yn cael ei gynnwys yn y paragraff ac sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Mae'r paragraff yn rhestru ymhlith materion eraill troseddau sydd yn ymwneud a lladrata.

Ystyriwyd paragraff 12.2 sydd yn rhestru troseddau traffig difrifol at ddibenion y Polisi. Ymysg y troseddau mae MS90 - methu darparu gwybodaeth am hunaniaeth gyrrwr yn cael ei gynnwys. Nodir ym mharagraff 12.3 y byddai cais fel arfer yn cael ei wrthod os yw'r ymgeisydd wedi cyflawni trosedd traffig difrifol unigol ac nad ydyw wedi bod yn rhydd o gollfarn am o leiaf 6 mis.

Mae paragraff 16.1 o bolisi'r Cyngor yn ymwneud ag ail-droseddu. Rhaid sicrhau bod y collfarnau'n bodloni canllawiau'r polisi yn unigol, ond gyda'i gilydd efallai yn creu hanes o ail droseddu sydd yn dangos diffyg parch at les eraill ac eiddo. O dan y Polisi rhaid bod 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn fwyaf diweddar.

Mae paragraff 17.0 o'r Polisi yn ymdrin â thorri deddf, is ddeddf neu amod trwydded gyda pharagraff 17.1 o'r Polisi yn nodi y byddai'n annhebygol rhoi trwydded i ymgeisydd os oes collfarn am drosedd oni bai bod cyfnod o 12 mis wedi mynd heibio ers y gollfarn ddiweddaraf.

Ystyriwyd amod 6 o amodau trwydded gyrru cerbyd hacni a hurio preifat, lle nodi'r bod gofyn i yrrwr hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu ar ôl derbyn collfarn am unrhyw drosedd dan ddeddfwriaeth traffig. Os canfyddir bod tor amod, gall paragraff 17.1 o'r Polisi fod yn berthnasol lle amlinellir na fydd cais fel rheol yn cael ei ganiatáu oni bai bod 12 mis wedi mynd heibio ers yr achos mwyaf diweddar o hynny.

d) Rhoddodd yr Is bwyllgor ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Ystyriwyd bod collfarn 1991 yn ymwneud a throedd o drais. Gyda'r drosedd wedi digwydd bron i 28 mlynedd yn ôl roedd yr is bwyllgor o'r farn na ddylai'r gollfarn fod yn sail i wrthod y cais. Yr un oedd y penderfyniad ar gyfer collfarn 1998 oedd yn ymwneud ag anonestrwydd. Roedd y gollfarn eto yn un hanesyddol ac yn unol â pharagraff 8.2 o'r polisi nid oedd yn sail i wrthod y cais.

Yn dilyn trafodaeth bellach ynglŷn â digwyddiad Mehefin 2015, amlygodd y Cyfreithiwr bod yr ymgeisydd wedi ei ganfod yn ddieuog gan Lys Ynadon Caernarfon o'r troseddau honedig hyn. Ategwyd bod yr ymgeisydd, yn dilyn yr erlyniad, wedi bod gerbron Is bwyllgor ym Mawrth 2016, a bod yr is bwyllgor ar yr achlysur hwnnw wedi caniatáu'r drwydded gan anwybyddu'r digwyddiad gan iddo gael ei ganfod yn ddieuog. Ni chafodd y digwyddiad ei ystyried at ddibenion y cais hwn chwaith.

Wrth drafod y pwyntiau gyrru a gronnwyd yn 2016, fe'i hystyriwyd fel troseddau moduro difrifol, ond gan nad oedd tystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi derbyn collfarn o ganlyniad i'r troseddau, nid oedd yr is bwyllgor yn fodlon bod toriad i amod 6. Yn ogystal, roedd y pwyntiau gyrru wedi cronni dros 2 flynedd yn ôl ac felly o ystyried paragraff 12.3 ni ddylai fod yn sail i wrthod y cais.

Wrth ystyried amheuaeth y swyddogion trwyddedu fod yr ymgeisydd yn gyrru tacsï heb drwydded, cynghorodd y cyfreithiwr nad oedd amheuaeth gyffredinol yn ddigonol o dan y polisi - rhaid cael tystiolaeth o ddigwyddiad unigol lle adnabyddir toriad o ddeddfwriaeth benodol. O ganlyniad diystyriwyd y digwyddiad.

Er bod pob collfarn wedi ei ystyried yn unigol, bu rhaid i'r is-bwyllgor ei hystyried gyda'i gilydd, o dan baragraff 16.1. Penderfynodd yr Is bwyllgor nad oedd collfarnau 1991 a 1998, gyda'i gilydd, yn dangos hanes o aildroseddu oedd yn dangos diffyg parch at les eraill neu at eiddo. Fodd bynnag, gyda'r gollfarn ddiweddaraf wedi digwydd dros 10 mlynedd yn ôl, nid oedd paragraff 16.1 yn dod i rym.

O dan yr amgylchiadau, roedd yr is bwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hur preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd ac y byddai'r Uned Drwyddedu yn cysylltu i gadarnhau dogfennau'r drwydded.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:45am a daeth i ben am 12:30pm